# Cenn@d

IONAWR 15 2025 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 203


## Jimmy Carter (1924–2024) – yr athro ysgol Sul ymroddedig

Er mai fel 39ain Arlywydd yr Unol Daleithiau y bydd Jimmy Carter, a fu farw ar 29 Rhagfyr 2024 yn gant oed, yn cael ei gofio'n bennaf, bydd hefyd yn cael ei gofio fel athro ysgol Sul enwocaf y byd.

"Bydd hanes yn cofnodi na ddangosodd unrhyw arlywydd yn yr Unol Daleithiau fwy o ymrwymiad hirdymor i uniaethu â'r ffydd Gristnogol a hyd yn oed â dysgeidiaeth y Beibl na Jimmy Carter," yn ôl Albert Mohler, Llywydd Seminar Diwinyddol Bedyddwyr y De, Kentucky. Dywedodd Steven Hochman, cyfarwyddwr ymchwil yng Nghanolfan Carter, yn 2019 fod y Cyn-arlywydd wedi rhoi dros ddwy fil o wersi ysgol Sul yn ystod ei fywyd: "Does dim modd gwahanu hunaniaeth Jimmy Carter oddi wrth ei alwedigaeth gydol oes o wasanaethu am 70 mlynedd fel athro ysgol Sul, ac mae wedi byw bob wythnos o'i fywyd fel oedolyn yn astudio a dysgu'r Ysgrythurau."



Llun: unspalsh.com

Siaradodd yn agored am ei ffydd Fedyddiedig pan oedd yn ymgyrchu yn etholiad arlywyddol 1976, ac enillodd bleidleisiau llawer o Gristnogion efengylaidd y wlad pan alwodd ei hun yn 'Gristion wedi ei aileni'. Yn y pen draw byddai'n torri ei gysylltiad â Chonfensiwn Bedyddwyr y De ar ôl i'r enwad adolygu ei ddatganiad ffydd yn gorchymyn ar i fenywod ymostwng i'w gwŷr a gwahardd merched rhag gwasanaethu fel gweinidogion. Er hynny, parhaodd i fynychu Eglwys Bedyddwyr Maranatha, sy'n gysylltiedig â Chonfensiwn y Bedyddwyr Cydweithredol ac yn fwy cymedrol. Ar ôl gadael y Tŷ Gwyn ym 1981, treuliodd Carter ddegawdau yn cyflawni gwaith dyngarol ac ymgyrchu dros heddwch. Eto i gyd, ynghanol ei holl brysurdeb, roedd gan y Cyn-arlywydd apwyntiad wythnosol rheolaidd: yn cyflwyno gwers ysgol Sul yn ei eglwys Fedyddiedig wledig yn Georgia.

Yn ôl Cymdeithas Hanes y Tŷ Gwyn, Jimmy Carter yw unig Arlywydd yr Unol Daleithiau i fod yn athro ysgol Sul yn y swydd. Bu William McKinley a Theodore Roosevelt yn athrawon ysgol Sul cyn iddynt fynd i'r Tŷ Gwyn, a bu Benjamin Harrison yn arwain dosbarth astudiaeth Feiblaidd ar ôl ei dymor fel arlywydd. Ond dim ond Carter a ddaliodd ati'n ddi-baid drwy gydol ei oes.

Cyfeiriodd at ei ymrwymiad hirdymor i gyflwyno addysg Feiblaidd mewn cyfweliad yn 2014 yn Llyfrgell Arlywyddol LBJ. "Rwy'n perthyn i Eglwys y Bedyddwyr Maranatha a dyna lle rwy'n athro ysgol Sul bob dydd Sul – dydd Sul diwethaf a'r Sul nesaf hwn hefyd – tua 35 gwaith y flwyddyn," meddai. "Rydw i bod yn rhoi gwersi Beiblaidd ers pan oeddwn yn ifanc yn Annapolis, yn 18 oed, ac mae hyn wedi parhau trwy gydol fy oes."

Denai ei wersi ymarferol gannoedd i'w eglwys wledig yn Georgia ar y Sul wrth iddo gyflwyno adnodau'r Beibl i gynulleidfa o ddisgyblion. Mewn cyfweliad teledu, meddai Carter, "Yr hyn rwy'n ceisio'i wneud bob Sul ydi dechrau fy ngwers am ryw 10 neu 15 munud yn trafod digwyddiadau cyfoes, y profiadau diweddar dwi wedi'u cael neu lle dwi'n mynd yr wythnos nesaf, ac wedyn gweld sut mae hynny'n berthnasol i egwyddorion y Beibl, ac i werthoedd moesol sylfaenol sy'n berthnasol i bob bywyd dynol." Cyhoeddwyd cyfrol o'i fyfyrdodau *Through the Year with Jimmy Carter: 366 Daily Meditations from the 39th President*, sy'n cynnwys gwersi a gyflwynwyd ganddo yn Eglwys y Bedyddwyr yn Washington pan oedd yn y Tŷ Gwyn yn y 1970au.

Diolch am yr athro Ysgol Sul blaengar ac ymroddedig, ac am ei fywyd cyflawn fel gwas yr Arglwydd.

*Aled Davies*

## Jimmy Carter – cofio gwleidydd a Christion

Ganwyd Jimmy Carter yn 1924 yn fab i ffermwr cnau mwnci (*peanuts*) tu allan i Plains yn nhalaith Georgia. Sonnir yn aml nad oedd trydan yn ei gartref yn ystod ei fagwraeth. Ar farwolaeth ei dad, dychwelodd adref o'r llynges i ffermio. Bu ei waith yno'n llwyddiannus ac yn ddiweddarach ymddiddorodd mewn gwleidyddiaeth, a'i ethol ymhen y rhawg yn llywodraethwr ar dalaith Georgia. Oddi yno safodd fel ymgeisydd y Blaid Ddemocrataidd ar gyfer yr etholiad arlywyddol yn 1976. Yn niwedd y pedwardegau, ac yntau'n briod ers 1946 â Rosalynn, cyhoeddodd ei fod yn 'born-again Christian', ac yn ddiymwâd roedd Jimmy Carter wedi rhoi ei hun yn llwyr i Grist, a'i ffydd yn ganolog i'w fywyd. Ystyriai fod y cyfrifoldeb o fod yn athro

(parhad ar y dudalen nesaf)


'Carol y Swper' Tudalen 3

Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025 Tudalen 4

Bwletin Polisi Cytûn yn parhau i'n hysbysu a'n hannog i weithredu Tudalen 5

## *Jimmy Carter (1924–2024)*

*(parhad o dudalen 1)*

ysgol Sul yn fraint eithriadol iddo. Bu'n aelod o Eglwys Fedyddiedig Maranatha, yn Plains, Georgia, ar hyd y degawdau, ac am ei bedair blynedd yn y Tŷ Gwyn, parhaodd i gyflawni ei ddyletswyddau eglwysig yno hyd y gallai.

Roedd yn ŵr gwylaidd, agored a mwyn, ac yn hyderus yn ei allu ei hun. Disgrifiwyd ef fel gŵr a roddai bwys ar degwch ac yn ddyn moesol. Dywedwyd hefyd ei fod yn ddyn unplyg ac ystyfnig. Er ei rinweddau amlwg fel person, nid oedd yn ddyn poblogaidd yn y Blaid Ddemocrataidd. Hawlir gan nifer fod hyn yn egluro pam na lwyddodd i ennill ail dymor yn y Tŷ Gwyn yn etholiad 1980. Roedd Edward Kennedy wedi sefyll yn ei erbyn ar gyfer yr etholiad hwnnw, ac er iddo ennill yr hawl i sefyll yn enw'r Democratiaid, collodd yn yr etholiad arlywyddol, gan ildio'r Tŷ Gwyn i Ronald Reagan.

### Ei gyfnod fel Arlywydd

Daeth Jimmy Carter i'r Tŷ Gwyn yn dilyn sgandalau Watergate a Richard Nixon. Rhan o fyrdwn Carter oedd addo llywodraeth deg a chyfiawn, onest ac agored. Yn hynny o beth, prin y gall unrhyw un ddweud na fu'n driw i'w addewid. Roedd ei lwyddiant dramor yn amlycach na'i lwyddiannau gartref. Gwaethygodd cyflwr yr economi yn ystod ei arlywyddiaeth ac ni lwyddodd i gyfannu'r taleithiau. Ar ôl ei sefydlu'n Arlywydd, dewisodd ei fod ef a'i deulu'n cerdded ar hyd Pensylvannia Avenue, er bod hyn yn hunllef beryglus i'r swyddogion oedd yn gwarchod ei fywyd.

Yn 1978, gwahoddodd Anwar Sadat (Arlywydd yr Aifft) a Menachem Begin (Prif Weinidog Israel) i ganolfan drafod Camp David, er mwyn ceisio ffordd o ddod â'r rhyfel rhwng y ddwy wlad i ben. Oherwydd dygnwch yr Arlywydd Carter, llwyddwyd i sicrhau cytundeb, sef y Camp David Accord. Yn ystod ei arlywyddiaeth sefydlwyd cytundeb rhwng gwladwriaeth Panama a'r Unol Daleithiau, gan drosglwyddo perchnogaeth a chyfrifoldeb y gamlas i Panama (cytundeb y mae'r darpar Arlywydd Trump yn bygwth ei ddad-wneud).

Yn ystod ei dymor fel arlywydd, hyrwyddodd y trafodaethau i gyfyngu ar arfau strategol. Ef hefyd a lofnododd ddeddfau'n sefydlu Adran Ynni i'r Unol Daleithiau, yn ogystal ag Adran Addysg yn y wlad. Ceisiodd ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol yr Unol Daleithiau ym meysydd gwladwriaeth les, gofal iechyd, a systemau trethiant. Ond, yn gyffredinol, methiant fu'r ymdrechion hyn oherwydd iddo fethu sefydlu cytgord â'i blaid ei hun yn Nhŷ'r Gyngres.

### Ei gyfnod wedi colli'r etholiad

Ar wâhan i'w gyfnod yn y Tŷ Gwyn, bu ef a'i deulu yn byw yn yr un cartref yn Plains, Georgia, hyd y diwedd. Yn ystod y 44 mlynedd ers iddo golli'r etholiad, ymroddodd ef a'i briod i hyrwyddo Canolfan Carter, gan gyflawni llawer er lles sawl agwedd ar fywyd, a hynny ar draws nifer o wledydd byd.

Bu ef a Rosalynn yn briod am 77 o flynyddoedd dedwydd, ac roedd ganddynt bedwar o blant, a weithiodd yn frwd gydag ymgyrchoedd eu tad. Pwysleisir mewn sawl cofiant ganddynt fod cariad y rhieni tuag at ei gilydd yn angor i'r aelwyd. Casglodd lyfrau lu a'u cartrefu mewn llyfrgell a adeiladodd ei hun fel rhan o Ganolfan Carter. Bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Emory yn Atlanta ac yn ymgyrchydd dros heddwch a hawliau dynol.

Sefydlodd brosiect o'r enw 'Habitat for Humanity' gyda'r nod o ddarparu cartrefi addas a fforddiadwy i bobl. Dywedir bod 108,100 o wirfoddolwyr wedi bod yn rhan o'r gwaith ers ei sefydlu ddeugain mlynedd yn ôl, a hynny mewn 14 o wledydd. Adeiladwyd 4,447 o gartrefi, a bu hyn yn ei dro yn anogaeth i gyrff eraill gynnig darpariaeth debyg.

Yn Hydref 2002, pan oedd George W. Bush yn arlywydd ac yn cynllunio rhyfel ag Irac, anrhydeddwyd y Cyn-arlywydd Jimmy Carter am geisio heddwch, ymgyrchu dros hawliau dynol ac am weithio o blaid lles cymdeithasol. Roedd derbyn Gwobr Nobel am Heddwch yn y flwyddyn honno yn gydnabyddiaeth o'i anian i hyrwyddo heddwch yn y byd. Bu'n ddiplomydd mewn sawl ymdrech i ddatrys cyd-destunau rhyfel a nodwyd ei gyfraniad i gynorthwyo achos heddwch yn Nicaragua, Ethiopia, Eritrea, Gogledd Korea, Haiti, a'r hyn a ddigwyddodd yn Bosnia.

Roedd anian y ffermwr ynddo ar hyd ei oes, a chyfeiriai at ryfeddod y gwaith o ddarparu bwyd gan egluro gwyddoniaeth amaethu. Felly ei fwynhad o bysgota, a bu'n ymweld â Chymru sawl tro, gan fanteisio ar bob cyfle i bysgota gydag arbenigwyr fel Moc Morgan. Roedd hefyd yn hoff o gerddoriaeth, ac yn arbennig gerddoriaeth *jazz*, a roddai gyfle iddo ddathlu bod bywyd dyngarol yn ymwrthod â meddylfryd hiliaeth. Yn ystod degawdau olaf ei fywyd ysgrifennodd nifer o lyfrau. Ceir dau lyfr ganddo ar destun y Dwyrain Canol, sef *Palestine: Peace Not Apartheid* (2006) ac *We Can Have Peace in the Holy Land: A Plan That Will Work* (2009). Yn ogystal, cyhoeddodd *The Hornet's Nest: A Novel of the Revolutionary War* (2003) a chasgliad o farddoniaeth. Mae *White House Diary* (2010) yn cynnwys dyfyniadau o'i ddyddiadur y Tŷ Gwyn. Yn ei ddegawd olaf ceir ei fyfyrdodau am ei fywyd fel henwr yn *The Virtues of Aging* (1998), *A Full Life: Reflections at Ninety* (2015) a *Faith: A Journey for All* (2018).

Wrth ddiolch i Dduw am y gras a ddatguddiwyd ym mywyd Jimmy Carter, gweddïwn y caiff yr Arlywydd nesaf fesur helaeth o raslonrwydd ac unplygrwydd i ddal gafael ar y gwir, ac awydd i weithio o blaid heddwch yn y byd a chyfleoedd teg i drigolion daear.

*Denzil John*

## Cyflwyno Medal Gee

Bore Sul, 15 Rhagfyr 2024, cynhaliwyd oedfa arbennig yng nghapel Rehoboth, Prestatyn, pryd y cyflwynodd y gweinidog, y Parchg Brian Jones, fedal Gee i Mrs Nerys Biddulph. Cychwynnodd y daith iddi yn Llanefydd ac yna bu'n weithgar yn Rehoboth, lle bu'n athrawes ac yn arolygydd. Fe'i codwyd yn flaenores yn 1993, ac mae'n ysgrifenyddes weithgar a chydwybodol yn Rehoboth. Mae'n parhau i arwain ysgol Sul yr oedolion ac yn mynychu'r Cylch Trafod. Diolchwn i Dduw amdani. Wedi oedfa gymun fendithiol mwynhawyd paned a mins pei.



# ‘Carol y Swper’

Wel, mae dydd Nadolig wedi mynd heibio eto am flwyddyn arall! Ond nid felly tymor y plygeiniau.

Daw’r gair Cymraeg ‘plygain’ o ymadrodd Lladin sy’n golygu ‘caniad y ceiliog’. Yn wreiddiol, roedd yn enw ar wasanaeth yn eglwys y plwyf yn gynnar ar fore dydd Nadolig. Mae rhai plygeiniau’n dal i gael eu cynnal ar fore’r Nadolig, ond gydag amser daeth yn fwyfwy cyffredin iddynt gael eu cynnal gyda’r hwyr, a’u cynnal hefyd unrhyw bryd yn ystod misoedd Rhagfyr ac Ionawr. Gydag amser hefyd gwelwyd cynnal plygeiniau mewn capeli Anghydffurfiol yn ogystal ag mewn eglwysi Anglicanaidd.

Ar fore dydd Nadolig, yn dilyn gwasanaeth y plygain, byddai pobl yn mynd i dai ei gilydd i gael brecwast. A phan symudodd y plygeiniau i’r hwyr, daeth yn arfer i bobl gydswpera yn dilyn y gwasanaeth.

Tua dechrau’r ugeinfed ganrif, daeth yn arfer gloi’r ‘Blygien Fawr’ yn Eglwys Llanfihangel-yng-Ngwynfa trwy ganu’r garol sy’n dechrau ‘Cydganed dynoliaeth am ddydd gwaredigaeth’. Lledodd yr arfer, nes ei bod yn draddodiad bellach gloi’r gwasanaethau plygain yn gyffredinol trwy ganu’r garol honno. ‘Carol y Swper’ yw’r enw a roddir arni, ac mae’n garol addas iawn i’w chanu yn union cyn i bobl fynd i gydswpera, oherwydd y geiriau hyn yn y pennill olaf:

Mae heddiw’n ddydd cymod, a’r swper yn barod,
A’r bwrdd wedi’i osod; O! brysiwn.

Richard Owen, amaethwr o Lanfachraeth ym Môn, a luniodd y garol hon rywbryd yn yr 1840au. Tri phennill ohoni a genir fel arfer erbyn hyn, ond roedd y garol wreiddiol yn ddeg o benillion i gyd, a’r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio ar groeshoeliad Iesu Grist a’i atgyfodiad.

Yn Nameg y Mab Afradlon, mae’r tad yn trefnu gwledd fawr i ddathlu dychweliad ei fab edifeiriol. Ac mae’r Beibl yn llawn sôn fod Duw nid yn unig yn trefnu ffordd o waredigaeth trwy Grist a’i groes, ond hefyd yn darparu gwledd dragwyddol i’r rheini sy’n rhoi eu ffydd yn y Gwaredwr. Ac mae meddwl am y ‘swper’ rhyfeddol hwnnw yn peri i Richard Owen dorri allan mewn gorfoledd yn niwedd ei garol:

Mae’r dwylo fu dan hoelion yn derbyn plant afradlon
I wlad y Ganaan nefol i wledda yn dragwyddol.
Amen, Amen. O! moliant byth, Amen.
Haleliwia i’r Meseia sy’n maddau byth, Amen.

Wel, haleliwia yn wir!

*E. Wyn James*
*Caerdydd*

(*‘Munud i Feddwl’, BBC Radio Cymru, dydd Llun, 30 Rhagfyr 2024*)

# Bethlehem a Thregaron



Dyma brofi nad rhywbeth i blant bach yr ysgol Sul yn unig yw actio yn stori’r Geni. Syniad Gerald Morgan fu dod â chymuned oedolion ardal Tregaron ynghyd i berfformio cynhyrchiad dwyieithog o ddrama’r Geni. Mor ddiddorol oedd cydberfformio â phobol o bob cefndir a galwedigaeth, a hynny i godi arian tuag at LATCH, Elusen Cancr Plant Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

Roedd y perfformiad yn gyfuniad o’r Beiblaidd, traddodiadol, â gwedd fodern. Y milwyr Rhufeinig yn eu siacedi cuddliw a’u sbectolau haul a’r doethion o’r Dwyrain yn teithio ar eu beiciau modur yn lle camelod. Y prif gynhyrchydd oedd Gerald Morgan, ac roedd ei dîm yn cynnwys Ifan Gruffydd, Rhydian Wilson, John Jones, Rhian Dark ac Ifan Davies.

Crynhowyd yr hanesyn i berfformiad hanner awr a’i lwyfannu yng Nghapel Bwlchgwynt ac yn Neuadd Goffa Tregaron. Daeth tyrfa dda ynghyd i wylio’r sioe, gan sicrhau casgliad gwerth £1,249.80. Noddwyd y perfformiad gan Nwyddau Caron; Cacennau Gwen, Cig Oen Caron; D. I. Davies, Cigydd; Jos Jenkins a’i Feibion; Siop Rhiannon; Argraffwyr Lewis + Hughes; Meddygfa Tregaron, Y Clwb Bowls; Plismyn Aberystwyth.

Diolch i Neli Jones am deipio’r rhaglen am ddim, i weinidog a blaenoriaid Bwlch-gwynt am fenthyg y capel, ac i David John Edwards, gofalwr y Neuadd Goffa, am ei gymorth adeg yr ymarferion. Diolch hefyd i Gareth Jones am ofalu am y coffrau ariannol.

*Eirwen James*


# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025
# A wyt ti'n credu hyn?
# Dathlu 1700 mlynedd ers llunio Credo Nicea

**Cyflwyniad**

Wrth wraidd ein myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni mae'r cwestiwn a ofynnwyd gan Iesu i Martha: "A wyt ti'n credu hyn?" (Ioan 11:26).

Roedd yr un cwestiwn hwn yn atseinio drwy gydol trafodaethau'r Cyngor Eciwmenaidd cyntaf, a gyfarfu yn Nicea yn y flwyddyn 325, gan ddod â chymunedau Cristnogol o bob cwr o'r byd ynghyd i gryfhau eu cydberthynas fel Eglwys Iesu Grist. O'i ddarllen ar ei ben ei hun, gallai'r cwestiwn ymddangos fel her drawiadol. Ond yn y cyd-destun ysgrythurol mae'n amlwg bod Iesu'n dweud y geiriau hyn yn gariadlon, a'u bod wedi'u derbyn fel gwahoddiad yn ogystal â her. Yn yr un modd, er nad oedd Cyngor Nicea heb ei heriau wrth i Eglwys glwyfedig a gwasgaredig geisio dirnad gwirionedd neges yr Efengyl, roedd yno awydd amlwg i ddyfnhau cysylltiad a pherthyn ac i fyw'n ffyddlon fel disgyblion Crist.

Wrth fyfyrio ar y digwyddiadau hyn, cawn ein hatgoffa bod rhodd ein ffydd yn ein calonogi yn ogystal â'n herio. Cafodd dathlu 1700 mlynedd ers Cyngor Nicea ei groesawu â brwdfrydedd gobeithiol yn yr Eglwys fyd-eang ac mewn cyrff eciwmenaidd, gan ysbrydoli ystod eang o ddigwyddiadau a thrafodaethau. Mae'r dathlu'n achlysur arwyddocaol ledled y gwahanol draddodiadau Cristnogol, er gwaethaf y rhannu fu ar ein llwybrau yn y canrifoedd ers hynny. Mae rhai wedi aros yn agosach at yr Eglwys a ragwelwyd yn Nicea, â Chredo Nicea wedi parhau i fod yn ganolog bwysig fel datganiad o ffydd. Ar y llaw arall, mae eraill wedi dilyn patrymau nad ydynt yn seiliedig ar gredoau, gan roi mwy o




bwyslais ar ffyrdd eraill o fynegi ffydd Gristnogol gyffredin. Mae edrych yn ôl gyda'n gilydd o'n gwahanol safbwyntiau yn gyfle i ddyfnhau cyd-ddealltwriaeth a'n perthynas â'n gilydd, gan gryfhau ein hundod mewn amrywiaeth.

Er ein bod yn cydnabod gwerth edrych tuag at y gorffennol, rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen i fyfyrio ynghylch y modd yr ydym yn ymateb i gwestiwn Crist o dan amgylchiadau heddiw. Wrth wneud hynny, priodol yw inni ystyried yr hyn y gallem ei ddysgu oddi wrth esiampl a phrofiad Nicea. Cwestiwn pwysig yn hynny o beth, ac un y mae adnoddau'r Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol eleni yn ceisio ymateb iddo yw: sut mae hyn oll yn berthnasol i fywyd a chenhadaeth yr eglwys leol?

Mae gennym gyfle i ddathlu a phrofi cryfder ac anogaeth o rodd ein ffydd gyffredin. Yn yr amseroedd cythryblus ac ansicr hyn, gall dygnwch y ffydd honno fod yn achos gobaith i ni. Roedd yr Eglwys a ymgynullodd yn Nicea yn un a gawsai ei hysgwyd a'i chlwyfo gan drais ac erledigaeth, ac felly gallai uniaethu â dioddefaint y ddynoliaeth. Daeth cyfle iddi fod mewn deialog â'r grymoedd gwleidyddol oedd yn gosod dewisiadau anodd iddi ynghylch y ffordd orau i ddisgyblion ffyddlon Crist, nad yw ei Deyrnas o'r byd hwn, rannu Newyddion Da'r Efengyl. Yn y byd rhwygedig sydd ohoni heddiw, ac ymddiriedaeth pobl ym mharodrwydd grymoedd ac awdurdodau gwleidyddol, a'r Eglwys ei hun, i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, wedi'i thanseilio sut y gallai adnewyddu ein hymrwymiad i undod Cristnogol gyfrannu at newid er gwell?

Mae angen gweledigaeth newydd ar ein byd o ystyr heddwch sy'n canolbwyntio ar gydnabod ein bod yn gydgysylltiedig yn ein dynoliaeth gyffredin. Wrth i ni ddod ynghyd i nodi 1700 blynedd ers Cyngor Nicea, mae gennym gyfle i ofyn y cwestiynau anodd ynghylch yr hyn allai fod yn amharu ar ein hunaniaeth gyffredin fel Cristnogion a'n cyd-dystiolaeth i'r byd. Fe'n hatgoffir o rym trawsffurfiol ein ffydd sy'n cynnig gobaith mewn dioddefaint drwy'r addewid yr adnewyddir popeth yng Nghrist.

**Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

*I lawrlwytho'r deunyddiau yn Gymraeg, llyfryn defosiwn dyddiol a chanllaw gwasanaeth, posteri etc. dilynwch y ddolen hon:*

Adnoddau ar gyfer Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 19 Ionawr, am 7:30yh –**
**Diwygiad 1904/05**
Bydd Lowri Morgan yn ardal Casllwchwr i nodi 120 mlynedd ers Diwygiad Evan Roberts yn 1904–05. Ymhlith ei gwesteion fydd yr Athro M Wynn Thomas.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
Sul, 19 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni'r Parchedig Dylan Rhys

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 19 Ionawr, am 12:00yp**
Wythnos Weddi am Undod Cristnogol – oedfa dan arweiniad Cynan Llwyd, Cytûn

# Bwletin Polisi Cytûn yn parhau i'n hysbysu a'n hannog i weithredu

Daeth rhifyn Rhagfyr 2024–Ionawr 2025 o gyhoeddiad Cytûn atom eto, a diolch am y gymwynas ddeufisol hon â ni fel eglwysi yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at dderbyn un Bwletin arall o leiaf o law Gethin Rhys cyn ei ymddeoliad ym mis Ebrill, gan ddymuno'r gorau iddo ac i Cytûn wrth iddyn nhw geisio olynydd iddo yn y gwaith. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio am Swydd Swyddog Polisi rhan amser gyda Cytûn yw 17 Ionawr.

Dyma grynodeb o rai o'r materion a gaiff sylw yn y cyhoeddiad. I'w ddarllen yn llawn ac i ddilyn y dolenni pellach, cliciwch yma: https://www.cytun.co.uk/

**Cymorth i Farw**
Rhoddir crynodeb gwerthfawr ar flaen y Bwletin o ymatebion yr enwadau yng Nghymru i'r bleidlais a fu yn San Steffan yn cefnogi Cymorth i Farw. Ond mae Cytûn yn ofalus yn nodi y bydd angen cytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol am y Bil hwnnw yn Senedd Cymru, gan mai gwasanaeth iechyd datganoledig Cymru fyddai'n ei weithredu yng Nghymru. A chofier i Senedd Cymru wrthwynebu cynnig tebyg ar y pwnc ar 23 Hydref y llynedd.

Gyda'r drafodaeth yn San Steffan nawr yn symud i Bwyllgor, a fydd yn casglu tystiolaeth gan amrywiol fudiadau a'r cyhoedd, gallwn ddisgwyl i'r drafodaeth barhau ac i gyfraniadau Cristnogol amlhau yn y misoedd i ddod. Rhoddir sylw i'r rheiny mewn rhifynnau pellach o'r Bwletin Polisi.

**Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig i ystyried crefydd**
Mae'r Farwnes Hallett wedi cyhoeddi agor modiwl olaf yr ymchwiliad, Modiwl 10, a fydd yn archwilio maes hynod eang 'Effaith ar gymdeithas'. Ymhlith y pynciau a gynhwysir mae "cyfyngiadau ar addoli" a "galarwyr, gan gynnwys cyfyngiadau ar drefniadau angladd a chladdedigaethau a chymorth ar ôl profedigaeth" yn ogystal ag effeithiau lletach ar gymdeithas a fyddai hefyd o ddiddordeb i'r eglwysi.

Mae modd i unrhyw un gyflwyno tystiolaeth i'r Modiwl, ac mae'n fwriad gan Cytûn wneud hynny. Gall enwadau unigol, henaduriaethau, eglwysi lleol ac ati gyfrannu hefyd, os dymunant. Gall unigolion gyfrannu trwy gynllun Mae Pob Stori o Bwys: Every Story Matters - UK Covid-19 Inquiry. Cyhoeddir dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth (tua hydref 2025, mae'n debyg) a dyddiadau'r gwrandawiadau llafar (gwanwyn 2026) maes o law.

**Cyfreithiau Claddu ac Amlosgi newydd i Gymru?**
Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi argymhellion am ddiwygio'r gyfraith ar gladdu ac amlosgi a fyddai'n effeithio ar bob angladd ac ar bob mynwent. Bu Cytûn yn pwysleisio bod y rhan fwyaf o'r materion hyn wedi eu datganoli i Senedd Cymru, sy'n golygu y gallai fod cyfreithiau gwahanol yn Lloegr a Chymru yn y dyfodol.

Diolchwn i Cytûn am eu gwaith yn paratoi ymateb ynghylch materion sy'n gyffredin i holl eglwysi Cymru i'r ymgynghoriad cynhwysfawr hwn.

Dim ond y cam cyntaf tuag at ddiwygio'r gyfraith yw hwn; bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei argymhellion terfynol tua diwedd 2025, a byddai angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru benderfynu a ydynt am dderbyn y cyfan neu rai ohonynt, ac wedyn llunio deddfwriaeth bwrpasol.

**Housing Justice – "Ni allwn fod yn genedl noddfa heb dai"**
Mae adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd gan un o aelodau Cytûn, sef Housing Justice Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag elusennau, llywodraeth leol a chymdeithasau tai i atal digartrefedd ymhlith pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru. Mae'n awgrymu y gallai'r argyfwng tai presennol negyddu nod Llywodraeth Cymru o fod yn Genedl Noddfa gyntaf y byd, oni bai i'r sector tai gael ei gynnwys yn llawnach. Bu Cytûn yn greiddiol i'r ymgyrch dros osod y nod o Gymru fel Cenedl Noddfa.

**Eglwysi'n hybu iechyd da**
Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi (NCT) wedi cyhoeddi adroddiad newydd yn tafoli cyfraniad eglwysi i iechyd eu hardaloedd. Dan yr enw The House of Good: Health | National Churches Trust, mae'n ganlyniad ymchwil fanwl i'r holl weithgareddau sy'n digwydd mewn addoldai Cristnogol o bob enwad sy'n cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol. Mae enghreifftiau'n cynnwys banciau bwyd, gwasanaethau iechyd meddwl, grwpiau ieuenctid a chefnogaeth gyda chyffuriau ac alcohol. Mae'n amcangyfrif bod y gweithgareddau hyn gyda'i gilydd yn arbed £8.4 biliwn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â helpu degau o filoedd o bobl bob blwyddyn.

**Mudiadau gwirfoddol yn mynegi pryder am Yswiriant Gwladol**
Yn dilyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth San Steffan ar 30 Hydref, mynegwyd pryderon dwys gan fudiadau gwirfoddol, gan gynnwys eglwysi, am y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr. Dyma un sylw mewn llythyr at lywodraeth San Steffan a arwyddwyd ar ein rhan gan Cytûn:

"Mae'r newid hwn yn fwy na rhwystr ariannol; mae'n her sylfaenol i sector sydd eisoes o dan bwysau aruthrol yn sgil y cynnydd cyflym yn y galw am wasanaethau a'r cynnydd mewn costau byw a yrrir gan chwyddiant a chyllid cyfyngedig. Nid ffigurau'n unig mo'r rhain – maen nhw'n wasanaethau tyngedfennol a allai wynebu toriadau os na fydd y cyllid yn addasu i fodloni'r costau annisgwyl hyn. Rydym yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru fel partneriaid i fynd i'r afael â'r pryderon hyn."


**Llywodraeth Cymru'n ariannu Croeso Cynnes**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £1.5m i gefnogi ac ehangu lleoedd diogel a chynnes i bobl o bob oed gael mynediad iddynt yn eu cymunedau.

Mae Cytûn yn annog pob eglwys leol sy'n ystyried agor neu barhau â chanolfan croeso cynnes (dan unrhyw enw) i gofrestru ar wefan Croeso Cynnes: Warm Welcome Campaign a chyrchu'r adnoddau sydd ar gael yno.



# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 2: Llyfr y Pregethwr 1:1–2**

Fe awn ymlaen yr wythnos hon i edrych ar adnodau cyntaf Llyfr y Pregethwr gan ystyried yr awduraeth. Darllenwch y ddwy adnod agoriadol gan eu bod yn rhoi cyfeiriad i gynnwys y llyfr.

Yn ôl y traddodiad Iddewig, y brenin Solomon oedd yr awdur, mab y Brenin Dafydd. Dywed un ffynhonnell iddo gyfansoddi Cân y Caniadau pan oedd yn ifanc a nwydus; y Diarhebion pan oedd yn ganol oed ac arno angen doethineb fel llywodraethwr; a Llyfr y Pregethwr pan oedd yn hen ac yn teimlo fod bywyd yn faich. Wrth gwrs, roedd gan Dafydd nifer o feibion ac ni ddywedir yma pa un. Ni nodir ychwaith ym mha gyfnod yr ysgrifennwyd y llyfr, felly y mae amheuon wedi codi ynglŷn â'r awduraeth.

**Amau'r traddodiad**

Y cyntaf i wadu mai Solomon oedd yr awdur oedd Martin Luther. Credai ef mai cyfuniad o gyfansoddiadau bychain a luniwyd gan Iesu fab Sirach yng nghyfnod y Macabeaid, tua 170 CC, oedd y llyfr. Y farn gyffredin bellach yw mai gwaith awdur dienw ydyw, a'i fod yn tarddu o gyfnod diweddarach na'r ddegfed ganrif cyn Crist.

**Y Pregethwr**

Beth bynnag ei dras a'i gefndir, yn yr Hebraeg gwreiddiol y mae'r awdur yn cael ei alw'n *côheleth* (pregethwr), gair a achosodd gryn benbleth i esbonwyr a chyfieithwyr, o'r tadau Cristnogol cynnar ymlaen. Cyfieithiad y fersiwn Roeg o'r Hen Destament ohono yw *ekklesiastes*: ymgais i wneud cyfiawnder â'r Hebraeg gan mai ystyr sylfaenol *câhâl* (gwraidd y gair *côheleth*) yn yr Hebraeg ac *ekklesia* yn y Roeg yw 'cyfarfod' neu 'gynulleidfa'. Yr enw *ekklesiastes* a fabwysiadwyd gan y cyfieithiadau Saesneg. Dilynodd Jerôm, un o ddiwinyddion mwyaf yr Eglwys Fore, yr un trywydd yn ei gyfieithiad Lladin o'r Ysgrythur wrth alw'r awdur yn *concionator*, sef yr un a âi o amgylch y ddinas i alw'r bobl ynghyd i'r sgwâr i wrando ar anerchiad y llywodraethwr.

Mae'r teitl 'Y Pregethwr' yn cyfateb i'r hyn a gafwyd gan Martin Luther yn ei gyfieithiad Almaeneg o'r Beibl a gyhoeddwyd ym 1534. Cynigiwyd enwau eraill ers hynny: 'Yr Athro', 'Y Llefarydd', 'Yr Athronydd'. Ond bellach, awgrym Luther yw'r teitl mwyaf adnabyddus i ni. Pwy bynnag ydoedd, *côheleth*, 'y Pregethwr', ef sy'n traethu yn y rhan helaethaf o'r llyfr, er bod llawer o'r hyn a ddywed yn debycach i drafodaeth mewn ysgol ac athrofa nag i genadwri o bulpud!

**Thema'r llyfr**

Mae'r ail adnod yn cyflwyno thema gyffredinol y llyfr gyda'r geiriau 'Gwagedd llwyr, gwagedd llwyr yw'r cyfan' (1:2). Y gair Hebraeg am 'wagedd' neu 'oferedd' yw *hebel*. Mae'n ymddangos 70 o weithiau yn yr Hen Destament – 37 ohonynt yn Llyfr y Pregethwr. Y mae i'r gair ei ystyr sylfaenol, ond nid hawdd yw cael cyfieithiad cyson sy'n addas i bob cyd-destun. Ymysg y lliaws o gyfieithiadau, ceir 'di-fudd', 'diwerth', 'disynnwyr', 'gwirion', 'anadl', 'chwa o wynt', 'pwff o fwg'. Fe'i defnyddir yn yr Hen Destament yn gyffredinol i ddisgrifio unrhyw beth disylwedd a byr ei barhad: eilunod, am eu bod yn gwbl aneffeithiol; cynlluniau nad ydynt yn cyrraedd unman; addewidion nas gwireddir. Yn yr Hebraeg, *Hebel* yw enw Abel, mab byrhoedlog Adda a lofruddiwyd gan ei frawd.

**Gwagedd**

Ond mae'r Pregethwr yn defnyddio'r gair i ddisgrifio pleser, ymdrech, gwaith, golud, gwleidyddiaeth a bywyd yn gyffredinol. Gwagedd yw'r cwbl, meddai. Mae rhywbeth hynod gyfoes i'r agwedd hon lle mae'r awdur yn gofyn "Beth yw pwrpas yr holl bethau hyn y mae pobl yn ei wneud?" Maent yn ddiwyd ac yn brysur, ond i beth? Mae'n llyfr sydd ag elfen besimistaidd ynddo ond eto mae cyd-destun ysbrydol ac ymwybyddiaeth o arglwyddiaeth Duw yn perthyn iddo.

Y defnydd o'r gair yng nghyswllt y gorchymyn i fod yn llawen a mwynhau bywyd sydd wedi arwain esbonwyr cyfoes i feddwl am ystyr lai negyddol iddo yn llaw'r Pregethwr. Yn eu barn hwy, mae *hebel* yn cyfeirio at yr anesboniadwy mewn bywyd; yr hyn sydd y tu hwnt i ddeall dyn. Iddynt hwy, mae'r dehongliad hwn yn gwneud neges y llyfr gymaint â hynny'n llai pesimistaidd, ac felly'n fwy derbyniol.

**Beth 'dych chi'n feddwl?**

1. A yw gwadu'r farn draddodiadol mai Solomon oedd awdur Llyfr y Pregethwr, fel y gwna'r beirniaid Beiblaidd, yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch agwedd at ei gynnwys?
2. A ydych yn credu fod Duw'n ei ddatguddio'i hun i gredinwyr heddiw? Os felly, sut?
3. Ym mha ffordd y mae prif thema'r llyfr yn berthasol i ni heddiw?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Dysg i ni weddïo ... gweddi Dechrau'r Flwyddyn drwy'r dydd yng Ngholeg y Bala





Fe ofynnodd y disgyblion gwestiwn pwysig iawn i Iesu, ac mae angen i ninnau ddal ati i ofyn yr un peth heddiw: 'Arglwydd, dysga ni i weddïo.' (Luc 11:1) Mae gweddi yn ffynhonnell bywyd heb ei bath i'r crediniwr, ond yn aml mae ein hamseroedd tawel yn gallu bod yn anodd.

Ar Sadwrn cyntaf 2025 fe groesawyd grŵp o bobl ifanc i Goleg y Bala i ofyn yr union gwestiwn yr oedd y disgyblion wedi ei ofyn i Iesu. Roedd yn destun balchder a llawenydd meddwl bod yna griw o bobl ifanc yn fodlon aberthu Sadwrn cyntaf y flwyddyn er mwyn archwilio gweddi gyda'i gilydd. Cawsom amser o fendith yn mynd drwy Weddi'r Arglwydd fesul adran, gan gymryd at weddïo drwy amryw o wahanol ddulliau. Cawsom ddiwrnod cyfan o weddïo mewn gwahanol ffyrdd: ar daith weddi, mewn moliant, mewn grwpiau gweddi, gweddi greadigol a mwy.

Gofynnwn i chithau ymuno â ni mewn gweddi gyda phobl ifanc Cymru – a drostyn nhw – y byddan nhw'n cael eu codi'n bobl sy'n fodlon brwydro mewn gweddi ac yn cael profi Iesu'n agos iawn atyn nhw yn eu bywydau gweddi eu hunain.

*Siôn Morris*
*Swyddog Ieuenctid Cenedlaethol EBC*

## ADUNIAD SOULED OUT

**CHWEFROR 7–9 | COLEG Y BALA**
**PENWYTHNOS I IEUENCTID 15+ A MYFYRWYR**

Mae ADUNIAD SOULED OUT yn gyfle grêt ar ddechrau'r flwyddyn i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl! Y prif sesiynau yw uchafbwynt yr ADUNIAD bob amser, wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano trwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl!

Bydd yr ADUNIAD yn dechrau ar y nos Wener gyda swper i bawb ac yn gorffen ar ôl cinio dydd Sul.

Cost y penwythnos yw £74, ond os yw talu'r swm llawn yn mynd i fod yn anodd, cysyllta â ni am sgwrs gyfrinachol.

Gwna'n siŵr dy fod yn ymuno â ni am benwythnos i'w gofio yn ADUNIAD SOULED OUT!

[Ffurflen Gofrestru ADUNIAD SOULED OUT]







Plant ysgol Sul Pandy Tudur yn cyflwyno'u pasiant Nadolig

# Capel y Tabernacl, Ceinewydd

Ar ddechrau blwyddyn, mae'n naturiol edrych yn ôl i weld, fel capel, beth rydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Mae drysau'r capel ar agor am bedwar diwrnod yr wythnos, gan gynnwys dydd Sul, drwy'r flwyddyn, i groesawu pobol o bob ffydd ac efallai heb ffydd o gwbl i ddod i mewn, lle mae cyfle iddynt ymdawelu a myfyrio am ychydig.

Cynhelir datganiadau ar yr organ, gweddïau a darlleniadau, ynghyd â chyfle i drafod y Beibl, bob bore Iau a Sadwrn, ac yn ystod mis Hydref daeth cais am ailddechrau Cyfarfod Gweddi am 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn.

Ers blynyddoedd, bob prynhawn Mercher, mae dosbarth crefftau poblogaidd yn cyfarfod, a thrwyddo rydym wedi cynnal



arddangosfa o grefftau yn achlysurol. Bydd yr un nesaf yn ystod 2025, er nad ydym eto wedi penderfynu ar y dyddiadau. Mae'r dosbarthiadau hyn yn gyfle i bobl gymdeithasu a dangos eu doniau. Cefais ymateb gwych gan rai o'r dosbarth am eitemau ar gyfer dwy elusen, sef Baby Basics a Reaching Romania, ac fel canlyniad cyflwynais tuag wyth deg o eitemau i un o weithwyr Cynllun Dorcas

Oherwydd cysylltiad y capel â chychwyniad Diwygiad 1904–05, pleser bob blwyddyn yw croesawu grwpiau o bobl o bob cwr o'r byd, er mwyn iddynt dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn â'r digwyddiad hanesyddol yma.

Yn ogystal â chynnal oedfaon ar y Sul ac ar ddyddiau arbennig trwy'r flwyddyn, hyfryd yw cloi'r flwyddyn wrth weld y capel a'r festri tu fewn wedi'u haddurno ar gyfer y Nadolig. Mae llawer hefyd yn edmygu'r goeden Nadolig â seren a goleuadau lliwgar sydd wedi'u gosod tu allan, yn dynodi dyfodiad Crist i'r byd ac mai ef yw Goleuni'r Byd.

Diolch am bob cyfraniad.

*June Evans*
*(Ysgrifennydd)*

# Ydi'ch cwch yn siglo?

Yn Efengyl Mathew 8:23–7 adroddir am y tro hwnnw pan oedd Iesu a'i ddisgyblion yn croesi Môr Galilea mewn cwch. Wedi'i lethu'n llwyr gan y galw di-baid am ei sylw, syrthiodd Iesu i drwmgwsg dwfn. Yn sydyn, pan gododd storm fawr ar y môr, daeth ofn dirfawr dros y disgyblion. A phan gynyddodd eu gofid a'u trallod, aethon ni ati i ddeffro'r Iesu o'i drwmgwsg. "Achub ni, Arglwydd!" medden nhw. "Dŷn ni'n mynd i foddi!"

O ddechrau'r digwyddiad, cyfyd nifer o gwestiynau tyngedfennol i'n meddyliau:

1. Pam roedd Iesu'n cysgu yng nghrombil y cwch?
2. Ai cael ei ddal yn ddirybudd gan y storm wnaeth Iesu?
3. Ai diffyg grym oedd yn golygu na wnaeth rwystro neu dawelu'r storm?
4. Oni phryderai ynglŷn âg ofn a gofid y disgyblion?

Diolch byth bod y digwyddiad yn cynnig atebion:

1. Yn ddyn cyflawn, roedd Iesu'n flinedig wedi digwyddiadau'r dydd.
2. Cafodd ei ddal yn ddirybudd: rhuo wna stormydd bywyd, ond dan gyfyngiadau Duw bob amser!
3. Roedd y gallu ganddo, mewn gair, i ostegu'r storm. Pe dymunai, gallai rwystro neu arbed y storm hefyd.
4. Nid oedd Iesu'n esgeulus o ofnau na phryder y disgyblion. Beth bynnag, mynegodd ei anniddigrwydd am eu diffyg ffydd.

Credaf i'r Iesu gysgu yn y cwch oherwydd:

1. doedd dim rheswm ganddo dros ofni'r storm
2. ei fod yn ddarlun llythrennol o heddwch yng nghanol tensiwn
3. ei fwriad oedd datguddio'i allu (yn ei iawn bryd)
4. bod gogoniant mwy i'w ddatguddio wrth Iddo dawelu'r storm na'i rhwystro yn y lle cyntaf.

Ydi'r storm yn rhuo o'ch amgylch heddiw? Ydi'ch cwch yn siglo – o ganlyniad i'r tonnau neu oherwydd eich anniddigrwydd?

Mae stormydd, tonnau cynddeiriog, a mynyddoedd sy'n crynu yn anochel yn y byd a'r bywyd hwn, ond addewir i ni yr heddwch hwnnw sydd tu hwnt i'n deall. Sut, tybed, mae'r gwirioneddau croes hyn yn cydfodoli?

Cyn ei ddal a'i groeshoelio, rhybuddiodd Iesu ei ddisgyblion: "Dim ond trafferthion gewch chi yn y byd hwn" (Ioan 16:33; beibl.net). Nid dyna'r hyn roedden nhw am ei glywed, na'r hyn ry'm ni am ei glywed chwaith. Rwy'n credu â'm holl galon fod geiriau Iesu nid yn unig yn berthnasol i'w ddisgyblion yn Jerwsalem, ond i bawb sy'n barod i godi eu croesau a'i ddilyn Ef.

Ond, ynghyd â'r rhybudd, dywedodd Iesu, "Dwi wedi dweud y pethau hyn wrthoch chi, er mwyn i chi gael profi'r heddwch go iawn sydd ynof fi" (Ioan 16:33; beibl.net). At beth, tybed, yr oedd Iesu'n cyfeirio? Y datguddiad, dull ac ystyr ei farwolaeth? Addewid ei atgyfodiad? Y ddealltwriaeth ddiamau y bydd i'w ddilynwyr fyw fel alltudion yn y byd hwn? A gwarant yr Ysbryd Glân i'w cysuro a'u dwyn i'r holl wirionedd?

Bydd ein trafferthion yn allanol; ond bydd ein heddwch yn fewnol. Ac wedyn, oni ddywedodd Iesu, "Cewch heddwch." Dywedodd, "Cewch heddwch." Pam?

Credaf ei bod i fyny i ni yn hollol gadw ein llygaid arno ef a chodi uwchlaw trafferthion y bywyd hwn – neu ymroi'n llwyr i ddifyrrwch a dryswch di-baid saethau tanllyd y diafol! Rhydd Crist y gallu i ni dderbyn ei heddwch. Rhydd ei Ysbryd Glân i ni, yn union fel y rhoddodd ei hunan. Ond erys y dewis gyda ni – i 'gynhyrfu' neu, "Peidiwch cynhyrfu" (Ioan 14:1; beibl.net).

Bydd rhai yn ddoeth eu dewis, eraill yn annoeth.

Fel Cristnogion, datguddiwn yr heddwch sydd uchlaw pob deall – trwy sefyll yn gadarn a thystio i'r gwirionedd.

Peidiwch â chamgymryd! Mae tywysog y tywyllwch am ddwyn eich llawenydd, tawelu eich tystiolaeth, a malurio'ch heddwch!

Dod i roi bywyd llawn i chi wnaeth Iesu, ac i lenwi'ch calon â'r heddwch hwnnw sy tu hwnt i ddeall dynol. Amlygir ei ogoniant i'r rhai o'ch amgylch pan lwyddwch chi i gadw'n dawel a bwrw 'mlaen, gan bwyso ar y sicrwydd mai ef sy'n llywodraethu, a'i fod ar fin dod yn ôl.

Ymlonyddwch, gan fwrw 'mlaen!

*E. Gwynne Parry*
*Cilgwri*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru